Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

James Mansfield
Pennaeth
Ysgol Stanwell
Archer Road
Penarth
CF64 2XL

13/12/2024

Annwyl James

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2024

Diolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 25 a 26 Tachwedd 2024. Gwnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am sut mae'r ysgol wedi ymateb i'r tri argymhelliad a wnaed gan Estyn yn ystod yr arolygiad craidd ym mis Chwefror 2022.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- drafod ag arweinwyr y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad yn ymwneud â gwella defnydd athrawon o holi i ddatblygu gallu disgyblion i feddwl yn annibynnol;
- trafod ag arweinwyr y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad yn ymwneud â sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ymlacio, cymdeithasu neu fynd ar drywydd eu diddordeb eu hunain;
- trafod ag arweinwyr y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad yn ymwneud â chynyddu ystod y cyfleoedd a gaiff disgyblion i ymarfer eu Cymraeg;
- cyfarfod â phenaethiaid blwyddyn i glywed sut mae lles disgyblion yn cael ei gefnogi;
- siarad â disgyblion ar draws grwpiau blwyddyn a chlywed eu hadborth am yr ysgol;
- siarad â grŵp o athrawon am yr effaith y mae cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'i chael ar eu harfer;
- cynnal cyfres o arsylwadau gwersi ar y cyd ag uwch arweinwyr i gefnogi eich hunanwerthuso a chynllunio gwelliant;
- ac arsylwi ystod o wersi.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella defnydd athrawon o holi i ddatblygu gallu disgyblion i feddwl yn annibynnol**

Ar ôl yr arolygiad craidd ac ymgynghori a myfyrio helaeth, mae'r ysgol wedi rhoi rhaglen fuddiol o weithgareddau dysgu proffesiynol ar waith i ddatblygu holi staff ac annog disgyblion i feddwl yn annibynnol. Mae gan y tîm addysgu a dysgu ddealltwriaeth glir o ddulliau addysgegol i wella holi athrawon. Maent wedi datblygu rhaglen gefnogol o ddysgu proffesiynol sy'n cynnwys yr holl staff yn ymgysylltu ag ymchwil weithredu. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y cymorth hwn trwy anogaeth, arsylwi gwersi a chymorth cymheiriaid. Yn ystod yr ymweliad, ymwelom â nifer fach o wersi. Er bod cyfleoedd i weld athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau holi yn addas, er enghraifft i wirio medrau galw i gof disgyblion, roedd rhywfaint o anghysondeb yn effeithiolrwydd holi athrawon.

<u>Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:</u>

Sut gall yr ysgol sicrhau bod yr holl athrawon yn mabwysiadu'r technegau holi mwyaf effeithiol i ddatblygu gallu disgyblion i feddwl yn annibynnol a chynnig her ddigonol?

**Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ymlacio, cymdeithasu neu fynd ar drywydd eu diddordebau eu hunain**

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi dyblu nifer y gwersi lles. Mae hefyd wedi cynllunio ystod o weithgareddau gwerthfawr yn y gwersi hyn i ddisgyblion gydweithio â'i gilydd mewn gemau corfforol a meddyliol neu fwynhau cwmni ei gilydd ar deithiau cerdded lles. Hefyd, mae ystod eang dros ben o weithgareddau allgyrsiol ar gael ar ôl ysgol ac mae cyfraddau cyfranogiad yn uchel, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn sioeau cerdd, digwyddiadau diwylliannol a theithiau. Nid yw'r ysgol wedi addasu amseroedd egwyl a chinio yn sylweddol; fodd bynnag, mae defnyddio system talu biometrig wedi gwella effeithlonrwydd yn y ffreutur. O ganlyniad i fentrau'r ysgol, erbyn hyn, mae'r disgyblion y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliad yn teimlo eu bod yn cael digon o gyfleoedd i ymlacio, cymdeithasu a mynd ar drywydd diddordebau newydd.

**Cynyddu ystod y cyfleoedd a gaiff disgyblion i ymarfer eu Cymraeg**

Mae nifer y gwersi Cymraeg ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 wedi cynyddu ac mae bron pob un o'r disgyblion yn ennill cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith erbyn diwedd Blwyddyn 11. Bu'r adran Gymraeg yn llwyddiannus o ran hybu astudio'r Gymraeg fel pwnc dewisol yn y chweched dosbarth. Pan fydd cyfleoedd yn codi ar draws y cwricwlwm, mae athrawon yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystod gwersi ac, mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn annog disgyblion i ymateb yn Gymraeg.

Mae'r ysgol wedi cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yn Eisteddfod flynyddol yr ysgol trwy gynnwys mwy o grwpiau blwyddyn. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddathlu iaith a diwylliant Cymru yn ystod digwyddiadau fel diwrnod 'Shwmae Su'mae'. Mae'r adran Gymraeg hefyd yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â Glan-llyn.

At ei gilydd, bu'r ysgol yn llwyddiannus o ran hybu gwerthfawrogiad o'r Gymraeg. O ganlyniad, dywedodd arweinwyr wrthym fod gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae cyfleoedd i aelodau staff sy'n mynegi diddordeb mewn datblygu eu medrau Cymraeg ymhellach fynychu sesiynau a gynhelir gan yr adran Gymraeg ar ôl ysgol.

Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

Sut gall yr ysgol annog disgyblion i ymarfer eu medrau sgwrsio Cymraeg â'u cyfoedion y tu allan i wersi Cymraeg?

Diolch i chi eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6735400

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol